# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

**EUR(3)-15-10-p3**
**9 November 2010**

## Papur gan Brifysgol Aberystwyth

## Diben

Darperir y papur briffio hwn gan Brifysgol Aberystwyth (PA) yn sgil y gwahoddiad, dyddiedig 15/10/10, i ddarparu tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol (y Pwyllgor) i gyfranogiad Cymru yn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr Undeb Ewropeaidd (UE) dros y cyfnod 2007-2013.

Gan gyfeirio at y materion a awgrymir yng Nghylch Gorchwyl yr ymchwiliad, mae'r papur hwn:

- yn rhoi braslun o'r modd y mae Prifysgol Aberystwyth yn cymryd rhan yng ngwahanol raglenni'r UE sydd o dan sylw
- yn cyfeirio'n gyffredinol at y profiad o gydgysylltu prosiectau Rhaglen Fframwaith (FP) mawr, neu gymryd rhan ynddynt, a chydweithio â phartneriaid academaidd a busnes
- yn dangos yr hyn y mae PA yn credu sy'n bositif ac sy'n her, o ran cymryd rhan yn y rhaglenni sy'n berthnasol i PA sy'n syrthio o fewn cwmpas yr ymchwiliad, ac yn cynnig rhai argymhellion i'r Pwyllgor eu hystyried.

## Cefndir

Mae gwahanol adrannau a sefydliadau Prifysgol Aberystwyth, gan gynnwys Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS), sy'n cynnwys yr hen Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER), wedi cymryd rhan mewn dwy o raglenni'r UE sy'n cael eu hystyried yn yr ymchwiliad hwn ers y cychwyn cyntaf:

i) Y Rhaglen Dysgu Gydol Oes (LLP)
ii) Y Rhaglen Fframwaith (FP)

### i) Y Rhaglen Dysgu Gydol Oes (LLP)

Mae mwyafrif Sefydliadau Addysg Uwch y Deyrnas Unedig (DU), os nad y cyfan, yn rhoi cyfle i unigolion astudio dramor o dan gynllun Erasmus. Mae rhai Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys PA, hefyd yn rhan o raglen Erasmus Mundus. O ran partneriaid sefydliadol Erasmus, mae gennym 80 o bartneriaethau ar hyn o bryd (sy'n gyfle i fyfyrwyr a staff fynd dramor), gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn yr Almaen (18) a nifer gyfartal, sef 10, yn Ffrainc a Sbaen. Fodd bynnag, mae gennym ystod eang o bartneriaid sy'n estyn o 4 yng Ngwlad Pwyl ac 1 ym Malta i 4 yn Iwerddon.

Isod, cewch dabl sy'n dangos nifer ein myfyrwyr sy'n mynd dramor (ar leoliadau gwaith ac astudio):

| **Blwyddyn** | **Nifer y myfyrwyr** |
|---|---|
| 2008/09 | 48 |
| 2009/10 | 44 |
| 2010/11 | 89 |

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith myfyrwyr sy'n rhan o'r cynlluniau LLP, fel a ddangosir gan ganlyniadau arolygon Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol diweddar. http://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/accolades/recent-accolades/top-isb-survey/

O ran lefel cyfranogiad sefydliadau Cymru, a'r math o gyfranogiad, o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU, ac o ran cyfartaleddau'r DU/UE, mae'r tabl isod yn dangos nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn rhaglen Erasmus o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru:

| | Cyfnewid – allan (Cymru) | Cyfnewid – allan (DU) | Cyfnewid – i mewn (DU) |
|---|---|---|---|
| 2008/09 | 380 | 10,826 | 20,851 |
| 2009/10 | 380 | Ffigurau heb eu cyhoeddi hyd yma | Ffigurau heb eu cyhoeddi hyd yma |
| 2010/11 | 442 | | |

(daw ffigurau'r ddwy golofn olaf o http://ec.europa.eu/education/erasmus/doc/stat/table109.pdf - 19/10/10)

Mae myfyrwyr o dir mawr Ewrop yn ymddangos yn llawer mwy parod i symud na'n myfyrwyr cartref. Mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at hyn, ond mae hyd yn oed y rheini o'r UE sy'n astudio yng Nghymru'n llawer mwy awyddus i fynd dramor na'n myfyrwyr o'r DU.

Un o'r prif rwystrau rhag cymryd rhan ac un o'r heriau y mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch y DU yn ei hwynebu ar hyn o bryd yw trefniadau hepgor ffioedd Erasmus. Mae dogfen a baratowyd gan Gyllid Myfyrwyr Cymru'n nodi *'na ddylai'r sefydliad cyfnewid godi ffioedd dysgu ar fyfyrwyr o dan y system newydd sy'n treulio blwyddyn academaidd gyfan dramor o dan gynllun ERASMUS ac nad ydynt yn gymwys i gael benthyciad ffioedd dysgu'.*
Mae hyn yn anodd iawn i'w gynnal gan fod tua £250,000 o ddiffyg yng Nghymru eleni. Mae trafodaethau'n awgrymu, fodd bynnag, y bydd y trefniadau hepgor ffioedd yn cael ei gapio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf i osgoi unrhyw ddiffygion yn y dyfodol. Mae hyn yn

debygol o effeithio ar nifer y myfyrwyr sydd am gymryd rhan yn rhaglen Erasmus, yn enwedig y rheini sy'n astudio Ieithoedd Ewropeaidd oherwydd eu bod fel arfer yn astudio ar gynllun gradd pedair blynedd.

Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, mae tuedd gyffredinol i'r DU dderbyn mwy o fyfyrwyr o dan gynllun Erasmus na'r nifer yr ydym yn eu hanfon dramor. Rhaid i ni ofyn: a ddylem geisio cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n mynd dramor i gyfateb i'r nifer sy'n dod yma, neu a ddylem roi cap ar nifer y myfyrwyr cyfnewid sy'n dod yma hyd nes bod ein ffigurau'n cynyddu?

Nid yw'n debygol y gallai'r rhan fwyaf o'r Sefydliadau Addysg Uwch sy'n rhan o unrhyw un o'r rhaglenni Erasmus yn y DU weithredu heb gyllid gan y Cyngor Prydeinig a'r Cynghorau Cyllido. Mae'r gwahanol gynlluniau symudedd gan y Cyngor Prydeinig yn bwysig iawn i unrhyw gynllun Erasmus oherwydd ein bod hefyd yn derbyn grant Sefydliad Symudedd. Gall y Brifysgol benderfynu sut i ddefnyddio'r gyllideb hon ac mae'n ffactor allweddol i wella profiadau'r myfyrwyr sy'n dod yma ar gynllun cyfnewid. Mae hefyd yn ddefnyddiol i hyrwyddo cynllun Erasmus a chodi ymwybyddiaeth ohono ymhlith myfyrwyr cartref.

**ii) Y Rhaglen Fframwaith (FP)**

Fel y gŵyr y Pwyllgor, mae'r Seithfed Rhaglen Fframwaith (FP7) wedi'i strwythuro ar ffurf 6 rhaglen benodol, pob un ohonynt â gofynion gweinyddu gwahanol, gyda 4 ohonynt yn agored i PA. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y prosiectau sy'n cael eu cefnogi yn PA ar hyn o bryd, fesul rhaglen:

| ***Rhaglen*** | ***Nifer y prosiectau sy'n cael eu cefnogi ar 22/10/10*** | ***Cyfanswm y cyfraniad ariannol*** | ***% o'r cyfanswm*** |
|---|---|---|---|
| Cydweithredu (Prosiectau Cydweithredol) | 18 | £5,744,645 | 60.5 |
| Syniadau (y Ganolfan Ymchwil Ewropeaidd) | 2 | £1,451,049 | 20.8 |
| Pobl (gan gynnwys camau Marie Curie) | 5 | £1,973,275 | 15.2 |
| Capasiti | 1 | £328,122 | 3.5 |
| ***Cyfansymiau*** | **26** | **£9,497,091** | |

Nid yw PA yn gymwys i fod yn rhan o raglenni'r Ganolfan Ymchwil ar y Cyd (JRC) ac Euratom.

Mae lefel y cymorth gan y Rhaglen Fframwaith ar ei huchaf erioed, fwy na thebyg oherwydd bod cymaint o synergedd rhwng cryfderau ymchwil PA, y meysydd ymchwil sy'n flaenoriaeth i'r Cynulliad, a 'heriau mawr' thematig yr UE, ac mae hyn yn debygol o gynyddu a) wrth i ymchwilwyr chwilio am gyllid amgen yn lle cyllid cynghorau ymchwil y DU, b) wrth i oblygiadau Ardal Ymchwil Ewrop (ERA) ddod yn fwy amlwg, c) wrth rannu profiadau ag ymchwilwyr yr hen IGER a oedd yn cael gafael ar fwy o gyllid FP, yn gymharol, o dan fersiynau blaenorol yr FP a d) gan fod y Brifysgol wedi penodi swyddog o fis Gorffennaf 2009 – Mehefin 2012 i roi anogaeth, cyngor a chymorth i academyddion sy'n gwneud ceisiadau.

Mae'r Pwyllgor, yn ei wahoddiad, wedi nodi ei fod yn arbennig o awyddus i glywed am brofiadau o fod yn rhan o'r rhaglen 'Gydweithredu', sy'n cyfrif am tua 67% o'r cronfeydd sy'n cael eu neilltuo i FP7.

Mae'r Rhaglen Gydweithredu, yn wahanol i raglenni eraill FP7, yn rhagnodol iawn ac mae'n gwahodd consortia rhyngwladol a thraws-sector i wneud cais am dendr ymchwil untro, o dan un o ddeg thema, fel arfer ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, gyda'r dyddiadau cau rhwng mis Hydref a mis Ionawr.

Mae natur unigryw a gofynion cymhwyster y cyfleoedd hyn yn golygu nad oes modd ailgyflwyno ceisiadau mewn blynyddoedd dilynol. Nid yw'r rhaglen ond yn berthnasol i ymchwilwyr mwy sefydledig, sy'n ysgwyddo baich dysgu ysgafn dros dymor yr hydref, a chanddynt gysylltiadau ag arbenigwyr eraill yn eu maes, yn y byd academaidd ac mewn diwydiant, mewn mannau eraill ar draws yr UE.

Mae gwerthuswyr y rhaglen yn gofyn am geisiadau manwl iawn a gyflwynir fel rheol mewn un cam ac mae'r ceisiadau fel arfer yn fwy na 100 tudalen o hyd. Mae'r rheini sy'n rhan o gonsortia'n dweud eu bod yn treulio o leiaf bythefnos yn cyfrannu at ddatblygu'r cynigion, gyda chydgysylltwyr/arweinwyr y cynigion yn buddsoddi dros bedair wythnos o'u hamser, ond mae hyn yn llai os cânt gymorth staff cynghori a gweinyddu profiadol.

Os yw'r dogfennau ynghylch darpar alwadau ar gael ymlaen llaw (fel arfer drwy gyswllt tramor oherwydd bod Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol y DU yn gyndyn o gyhoeddi gwybodaeth yn gynnar), mae modd achub y blaen a denu'r partneriaid gorau posibl i'r consortia.

O ran agweddau ariannol ar y rhaglen fframwaith, nid yw canran y costau economaidd llawn sy'n cael ei hadennill yn ddigonol i alluogi sefydliadau i fuddsoddi er mwyn cefnogi ymchwil a ariennir gan yr UE ac mae PA yn cwestiynu a yw'n gynaliadwy. Dim ond ychydig bach o gymorth allanol sydd ar gael, tua £100k y flwyddyn ar gyfer Cymru gyfan, drwy Gronfa Gydweithredu Ewropeaidd Cymru (WECF) a

weinyddir gan Rwydwaith Menter Ewropeaidd Cymru (WEEN), a hynny ar gyfer y broses ymgeisio gymhleth i gymryd rhan ym mhrosiectau cydweithredu'r rhaglen fframwaith. Felly, mae'r gwaith o baratoi cynnig yn dod yn faich ar adnoddau mewnol. Mae'r diffyg cymorth yn rhwystro unigolion rhag arwain consortia, hyd yn oed os yw'n fwy buddiol gwneud hynny'n ariannol: caiff 80% o'r costau'u hadennill gan arweinydd, o'i gymharu â 65% fel rheol gan gyfranogwr. Dylid cofio hefyd, wrth gymharu â Rhaglenni Fframwaith blaenorol, nad oes modd adennill TAW o fewn FP7. Mae hyn yn ychwanegu ar unwaith at y baich ariannol ar sefydliadau sy'n rhan o'r rhaglen.

Yn aml, cyflwynir cynigion gan gonsortia nad ydynt wedi gallu cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb oherwydd prinder adnoddau. Mae Swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel yn adnodd defnyddiol i gonsortia sy'n gallu fforddio cwrdd.

Fel rheol, dim ond un o bob wyth cais o dan y rhaglen hon sy'n llwyddo ar draws yr UE, yn ôl Swyddfa Ymchwil y Deyrnas Unedig (UKRO).

Hyd yn oed o gael cais llwyddiannus, rhaid treulio tua chwe mis yn trafod â'r UE cyn bod y cyllid yn cychwyn. Felly, fel rheol, bydd y sefydliad ymchwil wedi darparu dros 14 mis o gymorth i'r cais cyn bod y grantiau'n cael eu trosglwyddo.

Mae'r holl ffactorau hyn yn golygu nad yw'r Rhaglen Gydweithredu'n ymddangos yn ddeniadol i unrhyw un, ac eithrio academyddion mwyaf profiadol a phenderfynol PA, ac mae'n debygol o fod hyn yn oed yn llai deniadol i gwmnïau sy'n deillio o'r Brifysgol a BBaCh eraill Cymru a chanddynt lai o gapasiti cymorth.

Bu PA yn llwyddiannus gyda 50% o'r ceisiadau yn y rownd ddiwethaf o alwadau, a'r thema fwyaf llwyddiannus oedd y biowyddorau/Bio-economi Wybodaeth (KBBE).

Mae PA yn elwa ar fod yn rhan o brosiectau Cydweithredu FP7 o ran codi proffil y sefydliad fel sefydliad ymchwil o safon byd, helpu i ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill, denu ymchwilwyr eithriadol, creu swyddi hyfedr newydd, a chreu ymchwil y gellir ei defnyddio i greu cyfoeth. Hyd yn oed pan na fydd ceisiadau'n llwyddiannus, mae'r cwestiynau ymchwil sy'n codi yn y consortia fel arfer yn cael eu hailddefnyddio pan wneir cais am gyllid o ffynonellau eraill, a gellir meithrin cysylltiadau all fod yn ddefnyddiol ar gyfer y rownd nesaf o alwadau.

## Crynodeb / Argymhellion

1. Mae PA yn awyddus i weld mwy o synergedd a chydweithredu rhwng rhaglenni Cymru, y DU a'r UE oherwydd bod hyn

- Yn darparu ffocws mwy eglur i dargedu adnoddau er mwyn bodloni heriau mawr yr oes
- Yn hybu un farchnad Ewropeaidd ar gyfer ymchwil ac arloesi
- Yn hybu camau i ddymchwel seilos mewn strwythurau gweinyddu a monitro
- Yn hybu'r broses o arbenigo'n ddoeth ('manteisio ar gryfderau') o fewn rhanbarthau, gan gynnwys cydweithio mwy â Sefydliadau Addysg Uwch eraill, fel Partneriaeth Aber a Bangor.

2. At ddibenion gwell cydlyniant ac effeithlonrwydd, byddai PA yn croesawu pe bai cyfran uwch o gyllid y Rhaglen Fframwaith yn cael ei thargedu at ardaloedd Cydgyfeirio drwy sicrhau synergedd rhwng agweddau cyflenwol ar raglen Capasiti FP7 a'r cronfeydd strwythurol.

3. Er bod PA yn teimlo bod yr angen i ledaenu cyfraniadau'r UE ar draws ffiniau rhyngwladol yn y Prosiect Cydweithredu a'r Prosiect Pobl (Llwybrau Academia Diwydiant) yn hanfodol i gefnogi cydlyniant, weithiau gall hyn rwystro partneriaethau ar draws y sectorau academaidd/diwydiant mewn aelod-wladwriaethau unigol. Byddai PA yn arbennig o falch pe bai'r FP8 newydd yn dileu'r rhwystr hwn rhag arloesi, yn enwedig wrth ystyried prosiectau cydweithredol bach a chanolig a phrosiectau mewn ardaloedd cydgyfeirio.

4. Mae PA yn sylweddoli bod BBaCh yn wynebu mwy o heriau na'r byd academaidd o ran cymryd rhan yn y Rhaglen Fframwaith. Byddai'n awyddus i wneud mwy i ddatblygu clystyrau a/neu rannu ei phrofiadau o gael gafael ar gyllid y Rhaglen Fframwaith, yn amodol ar a) mynd i'r afael â materion cymorth gwladol a b) cydweithrediad a chymorth y Rhwydwaith Menter Ewropeaidd.

5. Mae PA yn credu y dylai'r Rhaglen Fframwaith newydd gynnwys ychydig o reolau clir sy'n cael eu cymhwyso'n gyson ac yn deg. I'r perwyl hwn, byddem yn annog a) pob Cyfarwyddiaeth sy'n rhan o FP7 i bwyso a mesur y nodweddion tebyg a gwahanol o ran gweinyddu gwahanol feysydd buddiant/elfennau FP7, gyda golwg ar nodi arferion da a symleiddio'r broses ymgeisio a'r gwaith o fonitro grantiau o fewn FP8; a b) byddem yn annog gweinyddwyr y Rhaglen Fframwaith newydd i gyhoeddi drafftiau cynnar o destunau'r galwadau cydweithredol drwy'r Pwyntiau Cyswllt Cenedlaethol i sicrhau bod mwy o amser ar gael i adeiladu'r consortia gorau posibl ac i annog BBaCh i fod yn rhan o'r prosiectau.

6. Byddai PA yn croesawu'n arbennig pe bai mwy o geisiadau dau gam yn cael eu defnyddio oherwydd ein bod yn credu a) y byddai'n sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol o ran trefniadau gwerthuso'r UE a b) er mwyn lleihau'r baich ariannol ar ymgeiswyr sy'n gorfod ysgwyddo costau sylweddol i baratoi ceisiadau un cam manwl iawn sydd, er hynny, yn hapgeisiadau.

7. Byddai PA yn croesawu defnydd ehangach o gyllid cyfandaliad/cyfradd sefydlog, lle bynnag y bo'n briodol ar draws holl feysydd ariannu FP7.

8. Mae'r cymorth er mwyn cael gafael ar gyllid y Rhaglen Fframwaith yn amrywio'n sylweddol ar draws gwledydd a rhanbarthau Ewrop. Gallai Cymru ddysgu gwersi defnyddiol o'r cymorth a ddarperir gan gynghorwyr rhanbarthol a) sy'n annog BBaCh â diddordeb yn FP7 i fanteisio arno yn yr Almaen a b) sy'n dylanwadu ar ddatblygiad FP8 yn rhanbarthau Lloegr sy'n ffinio â Chymru (Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr) er budd y sefydliadau sydd wedi'u lleoli yno.

9. Yng Nghymru, er bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gael i ddarparu llawer o gymorth i'r rheini sydd am gael gafael ar gyllid o'r cronfeydd strwythurol, mae capasiti Rhwydwaith Menter Ewropeaidd Cymru'n gyfyngedig iawn, am resymau cyllidebol, o ran cynorthwyo sefydliadau i gael gafael ar gyllid o'r Rhaglen Fframwaith. Ar adeg pan fo cymorth strwythurol yn debygol o leihau yng Nghymru, byddai PA yn croesawu pe bai mwy o ffocws yn cael ei roi ar y Rhaglen Fframwaith.

**Diwedd**